NASUWT
The Teachers' Union

# BWLETIN
# YR AELODAU

## Tywydd garw

Dylai pob cyflogwr gael polisi yn ei le ynglyn â sut i weithredu pan fydd y tywydd yn ddigon garw i effeithio ar allu ysgolion i agor.

Efallai na fydd ysgolion yn gallu agor am amrywiaeth o resymau, yn cynnwys:

- y system wresogi'n torri;
- pibellau'n rhewi neu'n torri; neu
- ffyrdd wedi cau a/neu'r safle'n anhygyrch oherwydd eira trwm iawn neu dywydd garw arall.

Mae gan rai awdurdodau lleol bolisïau lle mae'r awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad canolog am gau ysgolion yn ei ardal. Mewn llawer o awdurdodau lleol, fodd bynnag, gadewir y penderfyniad i ysgolion unigol.

Efallai bod academïau ac ysgolion rhydd wedi eu cynnwys ym mhenderfyniad yr awdurdod lleol, efallai nad ydynt. Y naill ffordd neu'r llall, dylid cyfathrebu hyn yn glir i'r staff a'r rhieni cyn unrhyw achos o dywydd garw.

Dylai penaethiaid sicrhau bod staff yr ysgol a rhieni'n ymwybodol o bolisi'r ysgol / yr awdurdod lleol a sut y byddent yn cyfathrebu â nhw os bydd yr ysgol wedi cau. Mae gan lawer o ysgolion drefniadau gyda gorsafoedd radio lleol a chyfleusterau ffôn ateb/neges destun/gwefan i gyfathrebu â'r rhieni.

Mae angen i athrawon sicrhau eu bod yn gwybod sut y bydd yr ysgol yn cyfathrebu â nhw os gwneir penderfyniad i gau'r ysgol.

Os penderfynir bod y tywydd mor ddrwg fel nad yw'n briodol agor yr ysgol i ddisgyblion, ni ddylid bod unrhyw reswm i'r ysgol ddisgwyl i staff ddod i mewn i'r ysgol. Os yw'r amodau'n annerbyniol neu'n beryglus i ddisgyblion, yna mae'r un ystyriaethau'n berthnasol i'r staff.

Os yw'r ysgol wedi cau, byddai'n rhesymol i'r ysgol ddisgwyl i'r staff ddefnyddio'u hamser gartref i wneud gweithgareddau priodol sy'n ymwneud â gwaith. Fodd bynnag, nid yw'n briodol mabwysiadu dulliau dysgu ar-lein cydamserol pan gaeir yr ysgol dros dro. Y rhesymau am hynny yw bod elfennau cymhleth yn gysylltiedig â'r trefniant hwn, mae'n creu llwyth gwaith ychwanegol ac mae'n debygol hefyd y bydd gan lawer o staff eu cyfrifoldebau gofalu eu hunain. I gael rhagor o gyngor ac arweiniad gan NASUWT ynghylch dulliau addysgu o bell a dysgu hybrid, cliciwch yma.

Wrth benderfynu a ddylai ysgol agor, dylid cymryd y canlynol i ystyriaeth, er enghraifft:

- cyngor gan yr heddlu ac asiantaethau eraill am amodau teithio ac amodau o amgylch yr ysgol;
- cyngor gan yr awdurdod lleol, fel y bo'n briodol;
- mynediad i safle'r ysgol i gerddwyr, gyrwyr a cherbydau argyfwng a diogelwch y safle; ac
- argaeledd y staff.

Ni argymhellir bod ysgol yn cymryd agwedd y 'pennaeth arwrol' h.y. yn ceisio cadw'r ysgol yn agored pan fo'n synnwyr cyffredin a phan fo'r heddlu ac asiantaethau eraill yn cynghori na ddylid teithio, neu'n palu drwy'r eira i geisio agor yr ysgol, er gwaethaf

y tywydd a'r rhybuddion.

Os gwneir penderfyniad i gau'r ysgol, dylid ystyried hwn yn gau na ellir ei osgoi.

Dylid gwrthod yn bendant unrhyw awgrym gan reolwyr yr ysgol neu'r cyflogwr, pan fydd yr ysgol wedi cau, bod disgwyl i athrawon wneud iawn am yr amser a gollwyd drwy wneud y canlynol:

- aberthu gwyliau;
- defnyddio unrhyw ran o'r pum diwrnod athrawon;
- colli amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) neu eu hamser cinio; neu
- golli cyflog.

Dylid egluro'n bendant y bydd athrawon, bob amser, yn gweithredu'n broffesiynol i wneud popeth a allent yn ystod y gwersi i sicrhau bod disgyblion yn gwneud yr holl waith y mae angen iddynt ei wneud ac y maent efallai wedi ei golli yn ystod y cyfnod y mae'r ysgol ar gau.

Os yw'r ysgol yn agored fel arfer, dylai'r staff wneud bob ymdrech resymol i fynd i mewn i'r gwaith.

Mae hyn yn golygu asesu argaeledd y cludiant cyhoeddus, neu os ydynt fel arfer yn gyrru i'r gwaith ac yn methu gwneud hynny, eu bod yn ystyried pa mor ymarferol yw cerdded i'r gwaith os ydynt yn byw'n weddol agos ac yn iach ac yn gallu gwneud hynny.

Ni ddylid disgwyl i athrawon gerdded milltiroedd mewn tywydd difrifol i gyrraedd y gwaith.

Os oes rhybuddion am dywydd difrifol yn yr ardal lle maent yn byw ac mae'r heddlu a chyrff eraill yn cynghori pobl i beidio teithio, bydd angen i athrawon sydd wedi eu heffeithio gysylltu â'u pennaeth i drafod y sefyllfa.

Efallai bod yr ysgol yn agored ond bod rhai disgyblion a staff yn methu cyrraedd yr ysgol.

Bydd angen i benaethiaid asesu'r gymhareb staff-i-ddisgylion i sicrhau eu bod yn gallu gweithredu'n ddiogel. Efallai y bydd angen iddynt gynghori bod rhai grwpiau o ddisgyblion yn aros adref.

Mae angen i benaethiaid sicrhau eu bod yn gwneud asesiad risg o ran iechyd a diogelwch.

Os bydd unrhyw anawsterau'n codi i athrawon neu arweinwyr ysgol sy'n aelodau o NASUWT, mae croeso i chi gysylltu â **NASUWT**.

***Pan fydd raid cau'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol***

Mae cau'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol yn creu nifer o broblemau. Felly, dylai arweinwyr ysgol a chyflogwyr fonitro rhagolygon y tywydd a ffactorau eraill, megis cynlluniau i atal cludiant cyhoeddus. Os bydd problemau oherwydd tywydd garw'n debygol o godi yn ystod y dydd, dylent ystyried cau'r ysgol cyn yr amser cychwyn arferol, hyd yn oed os yw'r amodau ar y pryd yn dderbyniol.

Os bydd y tywydd yn dirywio yn ystod y dydd nes y bydd yn ddigon garw i orfodi cau'r ysgol, yna dylai'r ysgol ddilyn ei threfniadau arferol i roi gwybod i'r rhieni am y penderfyniad.

Wrth gwrs, mae diogelwch y disgyblion yn bwysig. Bydd angen i'r disgyblion hynny nad oes modd eu hanfon adref gael eu goruchwylio nes y bydd modd i rywun eu casglu. Ond, mae iechyd, diogelwch a lles y staff yr un mor bwysig. Felly, mae'n afresymol disgwyl i'r staff i gyd aros ar y safle i oruchwylio disgyblion, a dylid galluogi i staff adael y safle hefyd gynted ag y bydd niferoedd y disgyblion yn gostwng ddigon i ganiatáu hynny.

Dylid gwneud hynny ar sail y risg y maent yn ei wynebu, e.e. drwy asesu i weld pwy sy'n wynebu'r risg mwyaf i'w diogelwch, megis y rheiny sydd â'r teithiau hiraf i gyrraedd adref, neu aelodau anabl o'r staff. Dylai'r ysgol benderfynu o flaen llawn, yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer tywydd garw, pa staff fydd yn aros i sicrhau diogelwch y disgyblion os ceir tywydd garw.

Mae'r tywydd yn gallu amrywio'n arw o ardal i ardal pan fydd y tywydd yn ddrwg, a dylai'r ysgol fod â chynlluniau ar gyfer anfon staff a disgyblion adref yn ystod y dydd os bydd hi'n dod yn amlwg bod risgiau i ddiogelwch yn cynyddu yn ardaloedd eu cartrefi hwy, hyd yn oed os yw'r amodau o amgylch yr ysgol yn dderbyniol.

## Llifogydd

Dylid darllen y cyngor hwn ochr yn ochr â'r **cyngor gan NASUWT ynghylch llifogydd.**

Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod iechyd a diogelwch pob cyflogai'n cael ei ddiogelu. Does dim budd i unrhyw un os gofynnir i aelodau o staff beryglu eu bywydau neu eu hiechyd naill yn ystod y llifogydd neu wedi i'r llifogydd ddod i ben.

***'Rhybuddion coch' y Swyddfa Dywydd***

Mae'r Swyddfa Dywydd yn cyhoeddi rhybuddion coch pan mae'n rhagweld tywydd eithriadol arw ac y mae perygl i fywyd. Os cyhoeddir rhybudd coch, bydd hi'n anodd cyfiawnhau agor ysgol. Hefyd, ni ddylid disgwyl i aelodau deithio drwy ardal sydd wedi derbyn rhybudd coch er mwyn cyrraedd ysgol sydd y tu allan i'r rhybudd coch, heb i asesiad risg trwyadl gael ei wneud o flaen llaw.

Os bydd unrhyw aelod o NASUWT yn gweithio mewn ardal sydd wedi derbyn rhybudd coch ac mae'r ysgol ar fin agor, neu nid yw wedi gwneud cynlluniau i gau, neu mae'n disgwyl i'r aelod deithio drwy ardal sydd wedi derbyn rhybudd coch i gyrraedd y gweithle, gysylltu â **NASUWT** i gael rhagor o gyngor.

Os nad oes cynrychiolydd NASUWT yn eich ysgol ac mae angen cymorth arnoch i roi'r cyngor hwn ar waith, cysylltwch â **NASUWT**.